

Crynodeb: Newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth sylfaenol – Diwygiadau i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Beth yw pwrpas yr ymgynghoriad hwn?

Rydym yn awyddus i gael eich barn am newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â gofal cymdeithasol a Gofal Iechyd Parhaus y GIG.

Rydym wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n nodi manylion y cynigion ac yn gofyn cwestiynau cysylltiedig.

Penodau 4, 5 a 6 – Diwygiadau i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Gweithredwyd Deddf 2016 mewn tri cham rhwng mis Ebrill 2017 a mis Ebrill 2019, gan gyflwyno trefn gofrestru a rheoleiddio newydd ar gyfer darparwyr gwasanaethau gofal a chymorth ('gwasanaethau rheoleiddiedig') yng Nghymru. Diwygiodd hefyd y system ar gyfer cofrestru a rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol.

O ganlyniad, rydym yn dechrau gweld manteision systemau mwy hyblyg sy'n blaenoriaethu gwelliant parhaus dros safonau gofynnol; sy'n rhoi mwy o bwyslais ar ganlyniadau i bobl sydd angen gofal a chymorth; ac sy'n cyfrannu at broffesiynoli ein gweithlu gofal cymdeithasol hanfodol.

Fodd bynnag, wrth weithio ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru, rydym wedi nodi rhai diwygiadau i Ddeddf 2016 a fydd naill ai'n cyflawni'r bwriad polisi gwreiddiol; yn datrys anghysondebau mewn systemau sydd wedi dod i'r amlwg yn ymarferol; a/neu'n cynorthwyo Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru yn eu prosesau a'u gweithgareddau.

Beth rydym yn ei gynnig?

Mae penodau 4 a 5 yn nodi newidiadau arfaethedig a'u heffeithiau, ar ystod o faterion, gan gynnwys:

- Nodi gwasanaethau anghofrestredig
- Cyhoeddi datganiadau blynyddol darparwyr
- Cyhoeddi adroddiadau arolygu

- Hysbysiadau gwella a chanslo cofrestriad ag Arolygiaeth Gofal Cymru
- Unigolion cyfrifol
- Diffiniad o 'ofal' i blant a phobl ifanc
- Hyd tymor swydd aelodau Gofal Cymdeithasol Cymru
- Cofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol ag Arolygiaeth Gofal Cymru
- Gorchmynion interim, wrth gynnal ymchwiliadau Addasrwydd i Ymarfer
- Dirymu gorchmynion interim.

Ym mhennod 6, rydym yn cynnig diwygio Deddf 2016 i alluogi estyn y diffiniad o 'weithiwr gofal cymdeithasol', i gynnwys pob gweithiwr gofal plant a chwarae. Bydd hyn yn darparu mandad clir i Ofal Cymdeithasol Cymru i gyflawni ei swyddogaethau er mwyn cefnogi'r sector hwn, yn ei gyfanrwydd.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn gwahodd eich barn ar yr holl ddiwygiadau arfaethedig a'r manteision, anafanteision, costau a'r risgiau sy'n debygol.

Sut galla i roi fy marn i Lywodraeth Cymru?

Gallwch gyflwyno eich ymateb **erbyn hanner nos ar 7 Tachwedd 2022**, yn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

- Llenwi ein ffurflen ar-lein, **neu**
- Lawrlwytho a llenwi ein ffurflen ymateb a'i hanfon drwy e-bost at: YmgynghoriadGofalCymdeithasol@llyw.cymru **neu** ei phostio i'r cyfeiriad sydd wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori.

Darllenwch y ddogfen ymgynghori cyn ystyried eich ymateb. Mae'r ddogfen ar gael yn:

llyw.cymru/newidiadau-arfaethedig-ir-ddeddfwriaeth-ar-ofal-cymdeithasol-gofal-iechyd-parhaus-y-gig